Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Adenotonsillectomi

## Cyngor wrth gael eich Rhyddhau o’r Ysbyty

**Cyngor i gleifion wrth iddynt gael eu rhyddhau o’r ysbyty yn dilyn Adenotonsillectomi**

**Gweithgareddau dydd i ddydd**
Mae'n bwysig cadw eich plentyn adref o’r ysgol neu'r coleg am bythefnos yn dilyn eu llawdriniaeth. Yn ystod yr amser hwn, dylent orffwys ac aros gartref gymaint â phosibl. Bydd angen iddynt osgoi lleoedd gorlawn lle gallent ddod i gysylltiad â heintiau sydd gan bobl eraill cyn iddynt wella yn dilyn y lawdriniaeth. Dylid osgoi amgylcheddau llychlyd a myglyd hefyd. Efallai y bydd eu trwyn wedi ei rwystro am wythnos neu ddwy yn dilyn y lawdriniaeth oherwydd chwyddo, ond bydd hyn yn setlo. Peidiwch â'u hannog i chwythu eu trwyn oherwydd gallai hyn achosi iddo ddechrau gwaedu. Am y 2 wythnos gyntaf ar ôl y llawdriniaeth, argymhellir osgoi bwyd / diodydd poeth ac osgoi bath / cawod poeth iawn, oherwydd gallai'r gwres o'r stêm achosi i'r trwyn ddechrau gwaedu. Mae tymereddau oerach yn dderbyniol.

**Poen**
Mae'r boen yn dilyn tonsillectomi fel arfer yn gwaethygu rhwng diwrnod 4 a 6 ar ôl llawdriniaeth ac yna'n gwella, ond gall bara am bythefnos. Mae'n bwysig iawn rhoi lladdwyr poen rheolaidd i'ch plentyn am yr wythnos gyntaf, yn ddelfrydol 30 munud cyn bwyd i'w alluogi i fwyta ac yfed yn haws. Gallant ddioddef poen yn eu clust oherwydd cysylltiad rhwng y cyflenwad nerf rhwng y gwddf a'r clustiau. Gall eu lleferydd swnio'n drwynol ac mae’n bosib y bydd hylifau’n ail godi yn y trwyn ar ôl tynnu'r adenoidau, ond dylent setlo dros gyfnod o ychydig wythnosau.

**Ymddangosiad y gwddf**
Mae'n normal i'r gwddf edrych yn wyn ar y ddwy ochr lle mae'r tonsiliau wedi'u tynnu. Mae hyn yn rhan o'r broses wella arferol. Mae rhai cleifion yn cael anadl ddrwg a fydd ond bydd yn diflannu mewn pythefnos. Os bydd eich plentyn yn mynd yn sâl gyda thymheredd dylech fynd i weld eich meddyg teulu oherwydd mae’n bosib eu bod wedi datblygu haint sy’n golygu fod angen gwrthfiotigau arnynt.

**Gwaedu**
Os oes gwaed ffres yn dod o drwyn neu geg eich plentyn mae’n rhaid i chi fynd â hwy i’r Adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf ar unwaith. Byddant yn cael eu hasesu gan aelod o'r tîm ENT ac efallai y bydd angen iddynt aros yn yr ysbyty ar gyfer arsylwi. O bryd i'w gilydd bydd angen llawdriniaeth bellach i atal unrhyw waedu.

**Deiet**
Dylid ailddechrau dilyn diet arferol cyn gynted â phosibl ar ôl y llawdriniaeth. Mae bwydydd garw a chrensiog (e.e. tost, bisgedi) yn arbennig o dda am lanhau cefn y gwddf.

**Camau Dilynol:**
Bydd eich llawfeddyg yn rhoi gwybod i chi os oes angen apwyntiad dilynol arnoch. Mewn rhai achosion pan fydd y llawdriniaeth wedi'i chyflawni oherwydd problemau anadlu, gellir trefnu apwyntiad dilynol.

**GWYBODAETH AR BETH I'W WNEUD MEWN ARGYFWNG AR GYFER CLEIFION SYDD WEDI'U RHYDDHAU O'R YSBYTY**

Os oes angen cyngor brys arnoch, dylech gysylltu

**09:00 tan 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc):**
Cysylltwch ag ystafell Driniaeth ENT ar 01633 234018

**Wedi 17:00/dros nos (plant): Ward C1 01633 493609**

**Mewn argyfwng, ewch i'ch adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf**

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English”**